

---

# Adolygu Rheoliadau'r Gwasanaeth Post 2022

Datganiad

---

Fersiwn heb fod yn gyfrinachol: [x] marciau i ddileu manylion cyfrinachol

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi penderfyniadau Ofcom ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post rhwng 2022 a 2027. Diben ein penderfyniadau yw amddiffyn defnyddwyr yn well, cefnogi effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol, a hyrwyddo cystadleuaeth yn y farchnad bost.
- 1.2 Mae gwasanaethau post yn chwarae rôl allweddol yn ein cymdeithas. Mae bron pawb yn y DU yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn rheolaidd, megis i dderbyn nwyddau ar ôl siopa ar-lein, i gael gohebiaeth feddygol bwysig, neu i anfon cardiau at ffrindiau a pherthnasau.
- 1.3 Mae anghenion defnyddwyr post, a'r marchnadoedd post sy'n eu gwasanaethu, yn newid. Mae nifer y llythyrau a anfonir gan ddefnyddwyr a busnesau yn parhau i ostwng, ond mae nifer y parseli'n cynyddu'n gyflym. Roedd pandemig Covid-19 wedi cyflymu'r tueddiadau hyn ac wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau post i gwsmeriaid preswyl a busnesau ledled y DU. Mae gweithredwyr post yn parhau i esblygu. Ceir mwy o gystadleuaeth bellach ar gyfer gwasanaethau parseli, yn enwedig ar gyfer danfon archebion siopa ar-lein. Mae hyn yn sbarduno arloesedd wrth ymateb i anghenion newidiol defnyddwyr. Mae'r Post Brenhinol, fel cwmnïau eraill, yn addasu i'r newidiadau hyn ond ar yr un pryd yn cynnal darpariaeth y gwasanaeth post cyffredinol.
- 1.4 Seilir y broses o reoleiddio'r post ar y gwasanaeth post cyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod llythyrau'n cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos a pharseli bum diwrnod yr wythnos i bob cyfeiriad yn y DU am bris cyson a fforddiadwy. Y tu hwnt i hyn, rydym yn cynnal fframwaith rheoleiddio sy'n ceisio cyflawni dyletswyddau cyfreithiol Ofcom.<sup>1</sup> Yn dilyn ein cais am fewnbwn ym mis Mawrth 2021 a'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2021, rydym nawr wedi dod i benderfyniadau ar y fframwaith rheoleiddio a fydd mewn grym dros y pum mlynedd nesaf (rhwng 2022 a 2027).

## Ein penderfyniadau – yn gryno

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad, rydym wedi gwneud y penderfyniadau canlynol ynghylch y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y gwasanaeth post:

**Cynnal y fframwaith cyffredinol presennol, gan gynnwys cap ar brisiau gwasanaethau cyffredinol sylfaenol a chynnal y safonau ansawdd gwasanaeth.** Byddwn yn parhau i gapio prisiau y set sylfaenol o wasanaethau post cyffredinol i sicrhau bod defnyddwyr post yn gallu cael gwasanaethau fforddiadwy. Rydym hefyd wedi penderfynu bod y safonau ansawdd gwasanaeth yn dal yn briodol ar gyfer cynnyrch y gwasanaeth cyffredinol.<sup>2</sup>

**Cyflwyno mesurau newydd wedi'u targedu i ddiogelu defnyddwyr, sy'n mynnu bod gan gwmnïau parseli bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer trin defnyddwyr anabl yn deg ac yn briodol, a chyhoeddi canllawiau newydd ar ddelio â chwynion.** Mae defnyddwyr anabl yn fwy tebygol o brofi problemau

<sup>1</sup> Gweler Pennod 2.

<sup>2</sup> Agorodd Ofcom ymchwiliad ar 31 Mai 2022 i berfformiad y Post Brenhinol o gymharu â thargedau'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yn 2021/22.

danfon a derbyn nwyddau ac o ddiodef niwed o ganlyniad. Bydd ein gofyniad newydd ar weithredwyr yn grymuso defnyddwyr anabl i drefnu danfoniadau mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion yn well. Gwnaethom hefyd sylwi ar berfformiad gwael o ran delio â chwynion, felly rydym yn cyflwyno canllawiau newydd i roi mwy o eglurder ynghylch sut rydym yn disgwyl i weithredwyr parseli gydymffurfio â'u rhwymedigaethau presennol.

**Parhau i sicrhau bod gan y Post Brenhinol hyblygrwydd masnachol er mwyn iddo allu ymateb i heriau darparu gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol.** Rydym yn cydnabod yr ansicrwydd yn y farchnad i'r dyfodol a bod risgiau'n parhau. Yn y cyd-destun hwn, mae'n arbennig o bwysig bod y Post Brenhinol yn cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ac yn moderneiddio ei weithrediadau, sef y ffactorau allweddol i sicrhau gwasanaeth cyffredinol sy'n ariannol gynaliadwy ac yn effeithlon.

**Sicrhau bod gennym well dealltwriaeth o gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, gan gryfhau ein gallu i ganfod ac ymateb i bryderon cynaliadwyedd yn effeithiol.** Rydym yn gofyn i'r Post Brenhinol roi darlun i ni o gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol dros gyfnod hirach na'r gofyniad presennol. Bydd hyn yn ein gallu i adnabod problemau o ran cynaliadwyedd ariannol yn well ac yn rhoi rhagor o wybodaeth i ni am natur a maint unrhyw risgiau.

**Mynnu bod y Post Brenhinol yn darparu ac yn cyhoeddi rhagolwg pum mlynedd ar ei ddisgwyliadau effeithlonrwydd ac yn adrodd yn ôl yn erbyn y gwir berfformiad.** Y Post Brenhinol sydd yn y sefyllfa orau i ganfod bylchau effeithlonrwydd yn ei fusnes a mynd i'r afael â nhw. Rydym yn gofyn i'r Post Brenhinol gyhoeddi rhai disgwyliadau effeithlonrwydd penodol ar gyfer y cyfnod 2023-28 ac i gyhoeddi diweddariad blynyddol ar y cynnydd. Bydd hyn yn helpu rhanddeiliaid i ddeall perfformiad effeithlonrwydd y Post Brenhinol yn well, ac effaith hynny ar gynaliadwyedd ariannol.

**Darparu fframwaith rheoleiddio sefydlog, i gefnogi buddsoddiad gan bob cwmni post a sicrhau bod y Post Brenhinol yn cystadlu ar yr un telerau.** At ei gilydd, credwn fod y farchnad parseli yn gweithio'n dda ar y cyfan i ddefnyddwyr, ac mae'r gystadleuaeth yn y marchnadoedd post yn arwain at fanteision i ddefnyddwyr. Rydym wedi penderfynu cadw'r holl fesurau diogelu presennol ar gyfer rheoleiddio mynediad. Rydym hefyd wedi penderfynu peidio ag ehangu'r gofynion rheoleiddio mynediad i'r farchnad parseli, a pheidio â mynnu bod rhaid tracio yn y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol gan ein bod o'r farn y gallai gwneud hynny fod yn niweidiol i gystadleuaeth.

1.5 Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

## Y camau nesaf

1.6 Gan ein bod ar y cyfan yn cynnal a chadw'r fframwaith rheoleiddio presennol, bydd y rhan fwyaf o'n rheoliadau presennol yn dal mewn grym. Yn nes ymlaen yn Ch2 2022/23 byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar adrodd ar y rheoliadau. Bydd yr ymgynghoriad yn trafod gofynion adrodd newydd ar sail y penderfyniadau yn y datganiad hwn.

1.7 Bydd ein canllawiau ar ddelio â chwynion cwsmeriaid yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023 a bydd ein mesurau diogelwch newydd ar gyfer defnyddwyr anabl yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2023. Yn ystod y cyfnod gweithredu, rydym yn bwriadu ymgysylltu â gweithredwyr parseli i ddeall eu

cynlluniau a byddwn yn adrodd ar y cynnydd yn ein Diweddariadau Monitro Blynyddol ar y farchnad bost yn y dyfodol.

- 1.8 Bydd ein hadolygiad o'r capiau diogelu yn dechrau'r hydref hwn ac rydym yn disgwyl cyhoeddi ymgynghoriad yn Ch1 2023/24.